



Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol  
Y Llwyfan  
Heol y Coleg  
Caerfyrddin  
SA31 3EQ

Cadeirydd:  
Dr Haydn E Edwards  
Prif Weithredwr:  
Dr Ioan Matthews

Ffôn:  
01267 610400  
Ebost:  
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk  
www.colegcymraeg.ac.uk

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trwy e-bost: [SeneddDGCh@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDGCh@cynulliad.cymru)

11 Medi 2018

## Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach - Ymateb y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ym mis Hydref 2017, cyflwynodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) ymateb i ymgynghoriad Bil y Gymraeg. Yn yr un modd, mae'r Coleg yn croesawu'r cyfle i ymateb yn ffurfiol i'r ymchwiliad hon. Yn gorff sydd bellach yn cael ei chyllido yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yr ydym yn croesawu'r cyfle i chwarae rhan weithredol yn natblygiad a gweithrediad y strategaeth Miliwn o Siaradwyr ac o ganlyniad, mae ein hymateb yn canolbwyntio yn yr ymateb hwn ar yr elfennau sydd yn fwyaf perthnasol i waith a chenhadaeth y Coleg.

Mae ein hymateb llawn i'w gweld isod wedi ei osod mewn chwe rhan sef –

1. Miliwn o siaradwyr: Cyrraedd y nod
2. Y Fframwaith deddfwriaethol
3. Hybu a hyrwyddo'r Gymraeg: Cysondeb ac effeithiolrwydd
4. Hyfforddiant cychwynol athrawon
5. Arloesi: Hyfforddiant iaith
6. Cynnal niferoedd myfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc.

### 1. MILIWN O SIARADWYR: CYRRAEDD Y NOD

Croesawn uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'r pwyslais sydd wedi ei osod ar y gyfundrefn addysg i gyrraedd y nod hynny. Drwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr barhau i astudio drwy gyfrwng Cymraeg ar lefel prifysgol ar draws y disgyblaethau, mae'r Coleg yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o greu gweithlu dwyieithog, gyda sgiliau lefel uchel. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2017 i ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i'r sectorau Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, yr ydym wedi cychwyn ar y gwaith cynllunio yn ystod chwe mis cyntaf 2018. Edrychwn

CYMRAG



ymlaen at gydweithio gyda phartneriaid allweddol i symbylu cynnydd sylweddol ym maes addysg ôl-orfodol yn ei ehangder yn y blynyddoedd i ddod. Bydd cynyddu'n sylweddol y sylw a roddir i'r gwaith o ddatblygu darpariaeth a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg ôl- 16 yn rhoi'r cyfle i gynyddu'r llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg i'r rheiny sy'n dewis astudio mewn colegau addysg bellach, neu ddilyn hyfforddiant neu lwybrau gwahanol i alwedigaethau penodol megis drwy brentisiaethau neu ddysgu seiliedig ar waith. Bydd angen cynllunio strategol a gofalus wrth roi'r gwaith hynny ar droed, ac er y bydd yn bwysig sicrhau cynnydd gweladwy yn y tymor byr, bydd angen newidiadau strwythurol sylfaenol er mwyn sicrhau'r trawsnewid angenrheidiol.

## **2. Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL**

Mae sicrhau fframwaith deddfwriaethol addas ar gyfer y Gymraeg yn rhan allweddol o gyrchu tuag at y nod o filiwn o siaradwyr, ond rhan o'r darlun yn unig yw'r elfen ddeddfwriaethol.

Mae'r cynigion y Papur Gwyn mewn perthynas ag ad-drefnu strwythurol yn rhai sydd angen ystyriaeth ofalus. Nodwn mai dim ond ers rhai blynyddoedd y mae'r strwythurau presennol mewn lle. Mae lle i farnu bod y broses o osod safonau wedi bod yn un sydd wedi cymryd mwy o amser nag y byddai rhai yn dymuno, ond derbyniwn serch hynny, fod y broses a'r camau y bu'n rhaid eu dilyn yn llafurus ac yn gymhleth ar adegau. O safbwynt cyd-destun gwaith uniongyrchol y Coleg, megis dechrau gweld dylanwad cadarnhaol y Safonau yn y prifysgolion yr ydym, gan mai yn ddiweddar y daeth y safonau i rym yn y sector addysg uwch. Rydym wedi clywed cydweithwyr yn y sector yn mynegi rhywfaint o rwystredigaeth bod y broses o ddelio gyda'r safonau yn gallu bod yn llafurus, ond, maent hefyd wedi adrodd am y camau breision ymlaen o ran cynllunio a datblygiad polisi ieithyddol oddi fewn i'w sefydliadau sy'n ganlyniad uniongyrchol i fframwaith deddfwriaethol cadarnach.

Credwn fod lle i symleiddio rhywfaint ar y drefn ddeddfwriaethol bresennol, ac yn sicr mae angen sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer y gwaith hybu a hyrwyddo, ond mae lle i bryderu y gallai camau a fyddai'n arwain at ansefydlogrwydd strwythurol sylweddol arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd.

## **3. HYBU A HYRWYDDO'R GYMRAEG: CYSONDEB AC EFFEITHIOLRWYDD**

Mae'r Coleg yn croesawu'r sylw a roddwyd yn ymgynghoriad y Papur Gwyn i'r gwaith allweddol o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Er mwyn sicrhau cynnydd pwrpasol yn y defnydd o'r iaith, ac yn nifer y siaradwyr, mae angen cydbwysedd addas rhwng y gwaith hybu a hyrwyddo ar y naill law, a'r gwaith rheoleiddio ar y llaw arall. Mae'n deg dweud fod y flaenoriaeth bennaf wedi'i roi i'r gwaith rheoleiddio yn y blynyddoedd diwethaf, a hynny'n am resymau cwbl ddilys a dealladwy wrth i'r Safonau iaith gael eu creu a'u gosod ar gyrrff am y tro cyntaf, ac wrth i bawb ymgysgu gyda'r fframwaith deddfwriaethol newydd.

Awgrymir, serch hynny, bod y gwaith hybu a hyrwyddo yn gwbl ganolog i ffyniant yr iaith, a bydd angen sicrhau sylw addas i'r gwaith hynny yn y blynyddoedd i ddod. Bydd cydweithio rhwng cyrff a gyllidir gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd y gweithgareddau marchnata yn bwysig.

#### **4. HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON**

Maes penodol arall sydd yn uniongyrchol berthnasol i waith y Coleg, yw Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Mae'r cynlluniau i ad-drefnu'r ddarpariaeth HCA yn y blynyddoedd nesaf yn cynnig cyfle ardderchog i sicrhau bod y gofynion a osodir ar y darparwyr mewn perthynas â hyfforddi athrawon a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol yn gwbl gadarn. Yn sicr, bydd angen gweithredu buan a phwrpasol er mwyn sicrhau'r cynnydd angenrheidiol yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn ymateb i uchelgais a thargedau'r strategaeth Miliwn o Siaradwyr. Credwn fod yma gyfle euraidd i osod disgwyliadau cadarn ar ddarparwyr y dyfodol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn gwbl ganolog i'w darpariaeth.

Mae'r Coleg wedi croesawu'r cyfle i arwain y gwaith o sefydlu'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon (HCA). Hyderwn y bydd y gwerthusiad cyfredol o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a'r gefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith myfyrwyr ar gyrsiau HCA yn argymhell ymgorffori cymhwysedd yn y Gymraeg, ar lefel briodol oddi fewn i'r continwmm iaith, fel rhan o statws cymwysedig athrawon yn y dyfodol.

Yn eu cyfarfod ar 21 Mehefin 2017 mabwysiadodd aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yr egwyddorion canlynol mewn perthynas â Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon:

- bod angen pennu faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hangen er mwyn cyrraedd nod cyffredinol Strategaeth Iaith y Llywodraeth, a chadarnhau erbyn pryd y bydd eu hangen;
- bod angen cadarnhau faint o'r athrawon ychwanegol hyn fydd yn dod o'r gweithlu addysgu presennol a faint fydd yn dod i'r proffesiwn drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau eraill;
- bod angen i'r Llywodraeth ystyried mabwysiadu trefn lle bo angen i bawb sy'n dymuno addysgu yng Nghymru yn y dyfodol gyrraedd lefel o hyfedredd yn y Gymraeg.

Credwn fod yr egwyddorion hyn, a'r angen i gymryd camau penodol i fynd i'r afael â'r her o gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a all ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl hanfodol i ymgysylltu at y targedau sydd wedi eu cynnwys yn y Strategaeth Iaith

Llywodraeth Cymru. Yn dilyn pennu darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon o 2019 ymlaen mae'n hanfodol i roi ystyriaeth lawnach i'r egwyddorion a nodir uchod yn amserol iawn.

## **5. ARLOESI: HYFFORDDIANT IAITH**

Ym maes hyfforddiant iaith mae'r Coleg wedi arloesi gyda datblygiad y Dystysgrif Sgiliau Iaith, sydd bellach wedi ei achredu gan CBAC. Mae sawl prosiect ar y gweill i adeiladu ar y Dystysgrif a'i ehangu, megis drwy ei chynnig yn y gweithle a thrwy ddatblygu tystysgrifau iaith sy'n berthnasol i feysydd galwedigaethol penodol. Yn y cyswllt hwnnw mae'r syniad o ddatblygu tystysgrif iaith mewn 'cyfathrebu clinigol' i fyfyrwyr ym maes Meddygaeth a Gofal Iechyd o dan ystyriaeth. Hefyd, byddwn yn ystyried datblygu cymhwyster iaith wahanol, o bosibl ar lefelau gwahanol, ar gyfer y sector addysg bellach.

## **6. CYNNAL NIFEROEDD MYFYRWYR SY'N ASTUDIO'R GYMRAEG FEL PWNC**

Mae cynnal niferoedd myfyrwyr sydd yn astudio'r Gymraeg fel pwnc yn allweddol i lwyddiant y strategaeth iaith y tu allan i'r fframwaith deddfwriaethol. Wrth gydnabod cyfraniad allweddol adrannau Cymraeg y prifysgolion yn y cyswllt hwn credwn mai'r flaenoriaeth yn y deng mlynedd nesaf fydd cynyddu'r niferoedd sydd yn astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch. Credwn fod angen parhau i adolygu'r maes llafur yn gyson, er mwyn sicrhau ei fod yn heriol ond hefyd yn berthnasol i'r gynulleidfa, gan gynnwys myfyrwyr sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn fwy diweddar. Mae'r Coleg yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer hybu'r Gymraeg fel pwnc, gyda'r nod o sicrhau bod ystod ehangach o fyfyrwyr yn dewis astudio'r Gymraeg yn y sector ôl-16. Byddai hynny yn sicr yn cynyddu'r nifer o ymgeiswyr sydd yn dymuno astudio'r Gymraeg yn y prifysgolion ond hefyd yn cryfhau sgiliau iaith Gymraeg myfyrwyr a fyddai'n dewis astudio pynciau eraill.

Diolchwn am y cyfle i ymateb i'r ymchwiliad.

Yn gywir iawn



Dr Ioan Matthews

Prif Weithredwr